

CYSTADLEUAETH AGORED RYNGWLADOL AR GYFER GWAITH 2 DDIMENSIWN YW CYMRU GYFOES / WALES CONTEMPORARY.

Gwybodaeth Gyffredinol

DYDDIAD CAU AR GYFER CYFLWYNO

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw **dydd Llun 2 Medi 2019**.

Cyflwynir drwy gais ar-lein yn unig.

PWY SY’N GALLU CYSTADLU

Mae'r gystadleuaeth ar agor i bob artist 18 oed a hŷn yn y DU neu'n rhyngwladol.

GWYBODAETH YMGEISIO

Caiff artistiaid gyflwyno hyd at ddau ddarn o waith.

Rhaid bod y gwaith celf yn waith 2D, a hwnnw mewn unrhyw gyfrwng heblaw ffotograffiaeth.

Y terfyn maint mwyaf yw 180cm mewn unrhyw ddimensiwn. Nid oes unrhyw derfyn maint lleiaf.

FFI YMGEISIO

CYFLWYNIAD SAFONOL: Y ffi ymgeisio yw £15 am un darn o waith a £25 am ddau.

CYFLWYNIAD ARTIST IFANC: Y ffi ymgeisio yw £10 am un darn o waith a £15 am ddau.

GWOBRAU

Y Wobr 1af – £5000 a 3 wythnos o breswylad yn Aberdaugleddau, Cymru (Chwefror – Mawrth 2020) ac 1 mis o arddangosfa unigol yn Waterfront Gallery, Cymru.

Yr 2il Wobr – £2500

Gwobr Artist Ifanc (25 oed ac iau) – £1000

Canmoliaeth uchel – £500

Gwobr i artistiaid a anwyd, a addysgwyd neu sy'n byw yng Nghymru –
£2000

Dewis y cyhoedd – £1000

ARDDANGOSFA

Cynhelir yr Arddangosfa yn [Waterfront Gallery, Aberdaugleddau, Cymru](#)

Bydd yr Arddangosfa ar agor i'r cyhoedd: **4 – 30 Hydref 2019**

Amseroedd agor: **Llun – Sadwrn, 10am – 4.30pm**

Gwahoddir pob arddangosydd i'r **Cyflwyniad Preifat ar ddydd Iau 10 Hydref** ac i'r **Gwobrwyo ar 23 Hydref 2019**.

DEWISWYR

DYDDIADAU ALLWEDDOL

Dyddiad cau i'r ceisiadau	Dydd Llun 2 Medi 2019
Artistiaid yn cael gwybod am y canlyniadau	Dydd Llun 9 Medi 2019
Cyflwyno'r gwaith a ddewiswyd	Dydd Llun 30 Medi 2019
Cyflwyniad Preifat ac Agoriad yr Arddangosfa	Dydd Sadwrn 4 Hydref 2019
Gwobrwyo	Dydd Mercher 23 Hydref 2019
Arddangosfa'n cau	Dydd Mercher 30 Hydref 2019
Arddangosfa ar daith i Mall Galleries, Llundain, SW1	5 - 10 Tachwedd 2019

Rheolau a Chanllawiau

YR ARTIST

Mae'r Gystadleuaeth ar agor i bob artist Prydeinig a rhyngwladol byw sydd dros 18 oed.

Y GWAITH

Mae'r Gystadleuaeth ar agor i waith 2 ddimensiwn yn unig.

Derbynnir unrhyw gyfrwng heblaw ffotograffiaeth.

Ni chaiff y gwaith fod yn fwy na 180cm mewn unrhyw ddimensiwn.

Rhaid bod y gwaith a ddewisir i'w arddangos ar gael rhwng 1 Hydref 2019 a 1 Mawrth 2020.

Y PANEL DEWIS

Bydd y beirniaid yn cael eu penodi, o ran nifer a chymhwyster, gan y Cwmni, fel y gwêl y Cwmni'n unig yn addas. Bydd penderfyniad y Beirniaid yn derfynol ac ni ddechreuir unrhyw ohebiaeth. Bydd pob gwaith yn cael ei feirniadu'n ddienw ac ni fydd unrhyw arwahanu ar sail gwlad, genre nac arddull ac ati.

DOSBARTHU A FFRAMIO GWAITH

Yr artistiaid sy'n gyfrifol am ddsbarthu'r gwaith i'r arddangosfa, gan gynnwys unrhyw dolldaliadau.

Cofiwch gyflenwi'r gwaith celf **heb** ddarnau gosod. Bydd y trefnwyr yn cyflenwi darnau gosod yn y gwahanol leoliadau.

DYCHWELYD DARNAU O WAITH

Yr artistiaid hefyd sy'n gyfrifol am ddychwelyd gwaith ar ôl yr arddangosfa, gan gynnwys unrhyw dolldaliadau. Bydd y trefnwyr yn ceisio cadw'r deunydd pacio ar gyfer gwaith rhyngwladol. Atgoffir yr artistiaid i nodi eu henw'n glir ar eu deunydd pacio.

Ceidw'r Cwmni, neu unrhyw rai o'i riant gwmnïau neu gwmnïau cysylltiedig, yr hawl i waredu unrhyw ddarnau o waith nad yw'r artistiaid wedi'u casglu ar ôl yr arddangosfa neu os nad yw'r artistiaid wedi ceisio casglu eu gwaith o gwbl o fewn 3 mis o'r dyddiad casglu.

CYFYNGIAD AR ATEBOLRWYDD

Er bydd y Cwmni'n defnyddio sgiliau rhesymol ym mhob sefyllfa wrth drin darnau o waith artistiaid, efallai bydd difrod achlysurol yn digwydd. Ni fydd y Cwmni'n atebol o gwbl am unrhyw golled, difrod neu ddinistr i ddarn o waith celf a gyflwynwyd i'w arddangos, neu mewn perthynas â darn o waith felly (gan gynnwys colli elw neu unrhyw golled ôl-ddilynol arall, colledion anuniongyrchol neu ddamweiniol), heblaw bod y golled o ganlyniad uniongyrchol i esgeulustod y Cwmni.

Argymhellir o ddifrif fod yr artistiaid sy'n arddangos yn yswirio eu gwaith celf gyda chwmni yswiriant parchus, a hynny am werth marchnad y gwaith celf.

FFOTOGRAFFIAETH A HAWLFRAINT

Drwy gymryd rhan yng nghystadleuaeth Cymru Gyfoes, mae pob artist yn cadarnhau ei fod yn dal yr holl hawliau eiddo deallusol yn y gwaith a'i fod wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig flaenorol i ddefnyddio unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti sydd wedi'i gynnwys yn y gwaith a gyflwynwyd.

Bydd artistiaid yn caniatáu i'r gwaith gael ei ffotograffio a'i atgynhyrchu gan Cymru Gyfoes, Parker Harris a Croeso Cymru at ddibenion hyrwyddo'r arddangosfa gan gynnwys; catalog, y wasg a chyhoedduswydd a gwefannau ym mhob tiriogaeth. Mae hawlfraint pob gwaith yn parhau'n eiddo i'r artist. Cyfeirir unrhyw ymholiadau am hawlfraint at yr artist.